

## Neges i rieni disgyblion sy'n talu am gludiant ar fysiau ysgol

Fel y gwyddoch, mae deddfwriaeth newydd a gyflwynwyd gan yr Adran Drafnidiaeth, yn golygu na fydd gweithredwyr bysiau yn gallu cynnig seddi i deithwyr sy'n talu am gludiant mwyach oni bai eu bod yn darparu mynediad llawn i'r anabl.

Mae hyn yn golygu, o 1 Ionawr, 2020, na fydd disgyblion sy'n defnyddio gwasanaethau bysiau ysgol masnachol fel teithwyr sy'n talu am gludiant yn gallu gwneud hynny mwyach. Mae llawer o'r gwasanaethau masnachol hyn eisoes wedi cael eu tynnu'n ôl, neu byddant yn cael eu tynnu'n ôl ar ddiwedd y tymor hwn. Fodd bynnag, mae gan rai gwasanaethau masnachol eisoes fysiau sy'n bodloni gofynion mynediad i bobl anabl, neu maent wedi gwneud cais am eithriad er mwyn caniatáu iddynt ddarparu nifer cyfyngedig o seddau i ddisgyblion sy'n talu am gludiant.

Bydd y nodyn hwn yn egluro a effeithir neu beidio ar y gwasanaethau masnachol a ddefnyddir gan eich plentyn/plant, yn ogystal â rhoi opsiynau i ddisgyblion ar y llwybrau yr effeithir arnynt.

Cofiwch nad penderfyniad a wnaed gan yr ysgol na Chyngor Sir Caerfyrddin yw hwn.

Mae unrhyw benderfyniad i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau masnachol yn fater i bob gweithredwr gwasanaethau masnachol unigol ar sail ei allu i fodloni'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar yr holl fysiau ysgol a ddarperir yn fasnachol ledled y DU.

Nodwch hefyd, lle bo plant yn byw o fewn tair milltir i'w hysgol, mai cyfrifoldeb y rhieni yw trefnu cludiant.

- Mae rhagor o wybodaeth am gludiant ysgol i'w chael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)
- Gellir gwirio materion yn ymwneud â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gyda Traveline Cymru ar 0800 464 0000 (rhadffôn) neu ar-lein ar [www.traveline.cymru](http://www.traveline.cymru)

### GWASANAETHAU NAD EFFEITHIR ARNYNT

Bydd y gwasanaethau masnachol canlynol yn parhau heb eu newid o fis Ionawr:

- 243 Pensarn – Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, Caerfyrddin
- C11 Trefechan – Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, Caerfyrddin
- C12 Trefechan – Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin
- L23 Dyffryn y Swistir – Ysgol y Strade, Llanelli
- L24 Heol Sandy – Ysgol Bryngwyn, Llanelli
- L27 Morfa – Ysgol Sant Ioan Lloyd, Llanelli

### GWASANAETHAU YR EFFEITHIR ARNYNT

Mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar y gwasanaethau masnachol canlynol, a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu tynnu'n ôl. Fodd bynnag, bydd nifer fach o wasanaethau'n gallu parhau gyda nifer gyfyngedig o seddi gwag.

Bydd angen i rieni wneud trefniadau eraill ar gyfer eu plant pan nad yw'r gwasanaeth yn bodoli mwyach. Darperir isod y pellteroedd cerdded a'r dewisiadau o ran trafnidiaeth gyhoeddus.

## Ysgol Bryngwyn, Llanelli

- L20 Llangennech – Bryngwyn - nifer cyfyngedig o seddi gwag ar gael. Gellir cyflwyno cais ar-lein [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)
- L28 Maengwynne - Bryngwyn - nifer cyfyngedig o seddi gwag ar gael. Gellir cyflwyno cais ar-lein [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)


## Ysgol Coedcae, Llanelli

- Ni fydd gweithredwyr gwasanaeth L21 Sandy a Morfa - Coedcae bellach yn derbyn teithwyr sy'n talu am gludiant.

### DEWISIADAU

#### O Sandy

 Pellter cerdded o Heol Sandy - Coedcae: 1.8 milltir (tua)

 Gwasanaethau bysiau cyhoeddus:

#### Sandy - Coedcae


- X11 o Heol Sandy (7.42am) i Orsaf Fysiau Llanelli (7.50am). Newid i wasanaeth 110 o Orsaf Fysiau Llanelli (8.10am) i Heol Capel Isaf (08.15am). Cerdded 0.4 milltir i Ysgol Coedcae  
PRIS: £14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod

#### Coedcae - Sandy

- Cerdded 0.4 milltir i Heol Capel Isaf. 110 o Heol Capel Isaf (3.21pm) i Orsaf Fysiau Llanelli (3.25pm). Newid i wasanaeth X11 o Orsaf Fysiau Llanelli (3.35pm) i Heol Sandy (3.39pm)  
PRIS: £14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod

#### O'r Morfa

 Pellter cerdded o Ysgol Iau Morfa - Coedcae: 0.8 milltir (tua)

 Gwasanaethau bysiau cyhoeddus: Dim cludiant cyhoeddus o'r Morfa


## Ysgol Maes y Gwendraeth

- Ni fydd gweithredwyr y gwasanaeth 107 Drefach - Maes y Gwendraeth bellach yn derbyn teithwyr sy'n talu am gludiant.
- Ni fydd gweithredwyr gwasanaeth 109 y Tymbl - Maes y Gwendraeth bellach yn derbyn teithwyr sy'n talu am gludiant.

### DEWISIADAU

#### O Drefach

 Pellter cerdded o Drefach - Maes y Gwendraeth: 2.4 milltir (tua)

 Gwasanaethau bysiau cyhoeddus:


##### Drefach - Maes y Gwendraeth


- 164 o Drefach (7.48 am) i Gefneithin (7.54am)  
NEU
- 164 o Drefach (7.48am) i Cross Hands (7.59am)  
PRIS: £14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod

##### Maes y Gwendraeth - Drefach

- 128 o Cross Hands (3.47pm) i Drefach (3.58pm)  
NEU
- 128 o Gefneithin (3.52pm) i Drefach (3.58pm)  
PRIS: £14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod

#### O'r Tymbl

 Pellter cerdded o Neuadd y Tymbl - Maes y Gwendraeth: 2 filltir (tua)

 Gwasanaethau bysiau cyhoeddus:

##### Tymbl - Maes y Gwendraeth

- 129 o'r Tymbl (7.37am) i Cross Hands(7.42pm)  
PRIS: £14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod

##### Maes y Gwendraeth - Y Tymbl

- 128 o Cross Hands (3.47pm) i Drefach (4.05pm)  
NEU
- 128 o Gefneithin (3.52 pm) i Drefach (4.05pm)  
PRIS: £14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod

## Ysgol Sant Ioan Lloyd, Llanelli

- L18 Sandy – Ysgol Sant Ioan Lloyd - nifer cyfyngedig o seddi gwag ar gael. Gellir cyflwyno cais ar-lein [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

### DEWISIADAU

#### O Sandy



Pellter cerdded o Heol Sandy – Ysgol Sant Ioan Llwyd 2.2 filltir (tua)



Gwasanaethau bysiau cyhoeddus:

#### Heol Sandy - Ysgol Sant Ioan Llwyd

- X11 o Heol Sandy (8.39 am) i Orsaf Fysiau Llanelli (08.45am). Newid i wasanaeth L3 o Orsaf Fysiau Llanelli (9am) i Deras Frondeg (9.03am). Cerdded 0.4 milltir i Ysgol Sant Ioan Llwyd  
PRIS: £14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod




#### Ysgol Sant Ioan Llwyd - Heol y Sandy



- 110 o Gapel Isaf (3.51pm) i Orsaf Fysiau Llanelli (3.55pm). Newid i wasanaeth X11 o Orsaf Fysiau Llanelli (4.05pm) i Heol Sandy (4.09pm)  
PRIS: £14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod

## Ysgol y Strade, Llanelli

- Ni fydd gweithredwyr gwasanaeth L26 Dafen- Strade yn derbyn teithwyr sy'n talu am gludiant mwyach (er y bydd gwasanaeth L23 yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion o Felin-foel/Thomas Arms/West End)
- Ni fydd gweithredwyr gwasanaeth L35 Pemberton/Llwynhendy/Bryn – Strade bellach yn derbyn teithwyr sy'n talu am gludiant

### DEWISIADAU

<b>O Ddafen</b>
 Pellter cerdded o Dyfed Steel – Felinfoel (ar gyfer gwasanaeth L23): 1.1 milltir (tua)
 Pellter cerdded o Dyfed Steel – Ysgol y Strade: 2.9 milltir (tua)
 Gwasanaethau bysiau cyhoeddus: Dim cludiant cyhoeddus o Ddafen

<b>O Pemberton</b>
 Pellter cerdded o Pemberton/Llwynhendy/Bryn - Strade: 2.8 milltir (tua)
 Gwasanaethau bysiau cyhoeddus:  Pemberton/Llwynhendy/Bryn – Strade <ul style="list-style-type: none"><li>• X11 o Barc Trostre (7.38am) i Strade (7.54am) PRIS: £14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod NEU</li><li>• 111 o Pemberton (7.40am) i Orsaf Fysiau Llanelli (7.45am). Newid i wasanaeth X11 o Orsaf Fysiau Llanelli (7.50am) i Strade (7.54am) PRIS: £14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod</li></ul> Strade - Pemberton/Llwynhendy/Bryn <ul style="list-style-type: none"><li>• X11 o'r Strade (3.40pm) i Orsaf Fysiau Llanelli (3.45pm). Aros ar y bws ar gyfer Parc Trostre, neu newid i wasanaeth 111 o Orsaf Fysiau Llanelli (3.55pm) i Pemberton (4.06pm) PRIS: £ 14.00 am docyn wythnos 7 diwrnod</li></ul>